



Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

HAF 2017

Croeso i newyddlen Haf 2017 y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau diweddar sy'n cynnwys cyhoeddi cyfraniad ymchwil CHEME mewn cyfnodolion effaith uchel sef treial ar effeithiolrwydd adalimumab mewn wfeitis yn gysylltiedig ag arthritid idiopathig mewn pobl ifanc a gyhoeddwyd yn y NEJM; ac effeithlonrwydd aflibercept intrafitreal mewn cleifion â retinopathi diabetig ymledol, a gyhoeddwyd yn y Lancet.

Mae ein hymchwil hefyd yn cynhyrchu effaith, ar ôl cael ei gyflwyno'n ddiweddar yn Awdurdod Rheoleiddio Cynhyrchion Meddygol a Gofal Iechyd, Pricewaterhouse Coopers ac EFTEC (Economeg Ymgynghoriaeth Amgylchedd).

Ceir mwy o wybodaeth ar ymchwil, dysgu (yn cynnwys cyrsiau byr) a gweithgareddau cefnogol GIG ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu drwy gysylltu â'n gweinyddwr Ann Lawton: cheme@bangor.ac.uk

Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor

Yr Athro Dyfrig Hughes a'r Athro Rhiannon Tudor Edwards

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME

YN Y RHIFYN HWN...

Rhoi sylw i ymchwil
Digwyddiadau i ddod
Newyddion am Staff
Digwyddiadau Diweddar
Cyhoeddiadau diweddar



Cafodd y treial CATCH (Heintiau Catheter mewn Plant; Lancet 2016; 387:1732-42) dan arweiniad yr Athro Ruth Gilbert UCL, gyda Colin Ridyard a Dyfrig Hughes yn cynnal y gwerthusiad economaidd iechyd, yr ail wobr yng ngwobrau BMJ am bapur ymchwil y flwyddyn yn y DU. Mae'r categori hwn o'r gwobrau yn cydnabod ymchwil gwreiddiol yn y DU sydd â'r potensial i gyfrannu'n sylweddol at wella iechyd a gofal iechyd.

RHOI SYLW I YMCHWIL...

Ymchwil blaengar

Crydcymalau idiopathig mewn pobl ifanc (JIA) yw'r clefyd rhiwmatig mwyaf cyffredin mewn plant, mae'n gysylltiedig â llid yr wfea (wfeitis) mewn tua 25% o gleifion. Dangosodd RCT a gyllidwyd gan NIHR/AR-UK, bod llid a reolir gan adalimumab, yn ychwanegol at methotrexate, yn gysylltiedig â chyfradd is o driniaeth yn methu o gymharu â methotrexate ar ben ei hun am 2 flynedd ymysg plant a phobl ifanc gydag wfeitis JIA-gysylltiedig gweithredol. N Engl J Med. 2017;376:1637-646.

Retinopathi diabetig ymledol yw'r achos mwyaf cyffredin o nam ar y golwg difrifol mewn pobl â diabetes. Mae wedi cael ei reoli gan ffotogeulad laser panretinal am y 40 mlynedd diwethaf, ond mae RCT o 232 o gyfranogwyr wedi dangos erbyn hyn bod aflibercept intrafitreal yn gwella'r canlyniad ar ôl un flwyddyn. Lancet. 2017;389:2193-203.

Mae gwerthusiadau economaidd o'r ddau ymyriad yn parhau.

Economeg Iechyd Cyhoeddus - Rhaglen cyfnewid sgiliau

Ar gyfer ein 'cyfnewid sgiliau' cyntaf yn CHEME, bu Rhiannon Tudor Edwards ac Eira Winrow yn ymweld â PwC ac EFTEC yn Llundain ym mis Mai i siarad ag ymchwilwyr sy'n gwneud dadansoddiad cost a budd ar gyfer nifer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat.

Yn PwC, gwnaethant gyfarfod â'r economegwyr amgylcheddol Mark Ewins, Will Evison ac Alice Sireyjol; ac yn EFTEC, gwnaethant gyfarfod â sylfaenydd EFTEC a'r economegydd amgylcheddol Ece Ozdemiroglu a'i thîm. Bu Rhiannon yn ateb cwestiynau gan y timau yn y ddau leoliad am ei gwaith a'i phrofiad fel economegydd iechyd a'r defnydd o QALYs a dulliau gwahanol o fesur canlyniadau mewn ymchwil iechyd y cyhoedd, ac rydym yn gobeithio'n fawr y gallwn wahodd PwC ac EFTEC i CHEME yn fuan iawn.



Meddygaeth Benodol i Unigolion - Economeg Ffarmacogeneteg

Mae ymchwilwyr yn adran ffarmacoeconomeg CHEME yn gysylltiedig â nifer o broiectau sy'n ymwneud â meddygaeth benodol i unigolyn, yn cynnwys dadansoddiadau cost-effeithiolrwydd o brofion ffarmacogeneteg i osgoi / lleihau'r tebygolrwydd o adweithiau niweidiol i gyffuriau, a datblygu dulliau o bennu gwerth y profion ffarmacogeneteg wrth gael eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft fel sail wybodaeth i ddiagnosis, monitro, neu eithrio cyffur. Mae canfyddiadau diweddar wedi eu nodi yng nghyhoeddiad yr Academy of Medical Sciences a'r UK Pharmacogenetics & Stratified Medicine Network am economeg iechyd meddygaeth haenedig, sydd ar gael yn: <https://acmedsci.ac.uk/file-download/61141574>



Ailymweld â chyffuriau ar gyfer cyflyrau meddygol prin (orphan drugs)

Yn ôl yn 2013, gwnaethom gyhoeddi canlyniadau arolwg cyfaddawd unigolion o ddewisiadau cymdeithasol y DU am bolisiâu HTA, yn cynnwys y Gronfa Cyffuriau Canser, meini prawf diwedd oes a chyllid i gyffuriau ar gyfer cyflyrau meddygol prin (Health Econ. 2013;22(8):948-64). Yn fwy diweddar, cydweithiodd Dyfrig Hughes gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Sydney (Lesley Chim, Glenn Salkeld, Martin Stockler ac eraill) i gynnal arolwg tebyg yn Awstralia. Gwelsom nad oedd canser a'r ffaith ei fod yn anghyffredin ynddo'i hun yn ffactorau sy'n gyrru blaenoriaethau arian cyhoeddus yn gryf.

Mae cwmnïau fferyllol sydd ag awdurdod i farchnata cyffuriau ar gyfer cyflyrau meddygol prin yn gwneud llawer o elw. Disgrifiodd Elin Haf Davies a Dyfrig Hughes y prosesau a'r dulliau i sefydliadau dielw sydd â chymhelliant cymdeithasol i fod yn berchen ar gyffuriau ar gyfer cyflyrau meddygol prin a all hwyluso mynediad at driniaethau mwy fforddiadwy. Maent yn awr yn cydweithio gyda Duchenne UK gyda'r nod o wireddu'r posibilrwydd hwn.

DIGWYDDIADAU I DDOD...

Symposiwm Ymchwil Meddyginiaethau Cymru

Bydd Dyfrig Hughes yn cynnal Symposiwm Ymchwil Meddyginiaethau Cymru ar 18 Gorffennaf. Noddir yr achlysur gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a Phrifysgol Bangor. Y prif siaradwr eleni yw'r Athro Marjorie Weiss o Brifysgol Caerdydd.

Seminarau awr ginio CHEME

Mae'r siaradwyr i ddod yn cynnwys:

4 Gorffennaf - Dr Gianluca Baio, University College London

1 Awst - Dr Chris Gibbons, University of Cambridge

5 Medi - I'W GADARNHAU

3 Hydref - Dr Harry Rutter, London School of Hygiene & Tropical Medicine

NEWYDDION AM STAFF...

Dementia a Dychymyg

Daeth gwneuthurwyr polisi, academyddion, ymarferwyr a sefydliadau'r trydydd sector i ddigwyddiad diwedd astudio ar gyfer yr astudiaeth Dementia a Dychymyg a gyllidwyd gan ESRC ac AHRC a oedd yn edrych ar ymyriad celfyddydol i bobl â dementia.

CHEME oedd yn arwain y pecyn gwaith gwerthuso economaidd ar gyfer yr astudiaeth, a chyflwynodd Carys Jones ganfyddiadau'r dadansoddiad o Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad. Mae cysylltu â budd-ddeiliaid wrth wraidd dadansoddiad SROI, ac un o uchafbwyntiau'r digwyddiad oedd sesiwn banel yn cynnwys cyfranogwyr yr astudiaeth, hynny yw pobl â dementia a'u gofalmwyr, yn trafod eu profiadau a'u cysylltiad â'r project.

Cyfarfod ACTIFcare, Brescia

Aeth Rhiannon Tudor Edwards a Carys Jones i gyfarfod terfynol ACTIFcare yn Brescia, yr Eidal. Roedd ACTIFcare yn astudiaeth hydredol aml-wlad o bobl â dementia a'u gofalmwyr a gafodd eu hadnabod fel rhai oedd ar fin angen gwasanaethau gofal ffurfiol. Roedd Rhiannon Tudor Edwards ar y bwrdd ymgynghorol gwyddonol rhyngwladol ar gyfer yr astudiaeth, yn darparu arbenigedd am economeg iechyd.



CYRSIAU.....

Mae'r cwrs byr ar Economeg Iechyd ar gyfer Ymarfer ac Ymchwil i Iechyd Cyhoeddus, sydd yn ei 5ed blwyddyn erbyn hyn, yn cwmpasu'r pynciau canlynol: Yr heriau wrth ddefnyddio dulliau gwerthuso economaidd gydag ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus; Modelu economaidd ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus; Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) gydag enghraifft o faes tai; Economeg Ymddygiadol a phennu Blaenoriaethau mewn Gwariant Iechyd Cyhoeddus gan ddefnyddio Rhaglen Cyllidebu a Dadansoddi Ymylol (PBMA).

Cynhadledd ICTM

Bu economegwyr iechyd North West Hub for Trial Methodological Research o CHEME yn cyflwyno yn y cyfarfod ar y cyd o'r International Clinical Trials Methodology a'r Society for Clinical Trials ar: dulliau i ddadansoddi risg-budd gan ddefnyddio arbrawf dewis arwahanol, meta-ddadansoddiad IPD i asesu effeithiolrwydd triniaethau ar gyfer clefydau prin, dulliau Bayesaidd ar gyfer dadansoddi cost-effeithiolrwydd treialon wedi eu seilio ar brofion, efelychiad wedi'i seilio ar ffarmacometrig o ddiffyg ymlyniad mewn treialon clinigol, a'r defnydd o ddata costio arferol ar lefel clefion i werthusiadau economaidd wedi eu seilio ar brofion.



O'r chwith i'r dde: Colin Ridyard, Dan Hill-McManus, Siobhan Bourke, Emily Holmes, Giovanna Culeddu a Dyfrig Hughes.

Rhagoriaeth Ymchwil Bangor

Roedd Emily Holmes yn y rownd derfynol ar gyfer Gwobr Rhagoriaeth Ymchwil Project Doethurol Prifysgol Bangor. Disgrifiodd y beirniaid PhD Emily ar ddeall ymddygiad cymryd meddyginiaeth fel project arloesol a oedd yn nodi a phrofi modelau ymddygiad o resymau am beidio â chadw at feddyginiaethau.

Codi'r Tô



Bu Rhiannon Tudor Edwards ac Eira Winrow mewn cyngerdd gan blant lleol oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Codi'r Tô, project cerddoriaeth mewn ysgolion El Systema. Datblygwyd posteri i godi ymwybyddiaeth am ymchwil SROI CHEME gyda'r sefydliad ac i ddechrau sgysiau gyda rhieni, aelodau o'r teulu ac athrawon yr ydym yn gobeithio y byddant yn dod i'r grwpiau ffocws dros y 12 mis nesaf.

Rhaglen cefn iach seiliedig ar ioga

Dewiswyd Ned Hartfiel i gynrychioli Prifysgol Bangor yn rowndiau terfynol rhanbarthol cystadleuaeth Gwobrau Entrepreneuriaeth Prifysgolion Santander, a gynhelir ym Mhrifysgol Northumbria ym Mehefin 2017.

Daeth y syniad am gwmni newydd Ned, Healthy Back Programme Ltd o'i ymchwil PhD yn CHEME. Ers cwblhau ei PhD yn 2016, mae Ned wedi ennill nifer o gleientiaid corfforaethol i'w raglen seiliedig ar ioga yn y gweithle yn cynnwys Cynghorau Sir Gwynedd a Chonwy, Heddlu Glannau Merswy ac Ysbyty Great Ormond Street yn Llundain.


O 2018, bydd cwrs byr newydd mewn ffarmacoeconomeg yn cael ei lansio. Bydd yn cynnwys hanfodion asesu technoleg iechyd, dulliau i werthuso ffarmacoeconomeg, yn cynnwys cyfuno tystiolaeth, modelu a gwerthusiadau seiliedig ar dreialon, astudiaethau achos o gyffuriau drud ar gyfer clefydau prin a chanserau, a defnydd ymarferol ar gyfer datblygiad fformiwlai, a rheoli meddyginiaethau.

Cyflwyniadau

Rhoddodd Rhiannon Tudor Edwards y prif anerchiad yn y digwyddiad Naturally Healthily ym Mirmingham. Trefnwyd y digwyddiad hwn i wella'r dulliau sydd ar gael i ddangos cost-effeithiolrwydd mynd i'r afael â blaenoriaethau iechyd lleol drwy gynyddu mynediad i'r awyr agored naturiol yn y DU.



Daeth y digwyddiad ag arbenigwyr at ei gilydd o bob cwr o'r DU ym maes iechyd cyhoeddus, comisiynu clinigol, economeg iechyd, economeg amgylcheddol, cynllunio gofodol ac arweinwyr mewn darparu mannau awyr agored naturiol.



Rhoddodd Dyfrig Hughes gyflwyniad yng nghyfarfod blynyddol ffarmacogeneteg y DU a meddyginiaeth haenedig yn Llundain.

Gwahoddwyd Catrin Plumpton i Symposiwm Blynyddol Ymchwil Canser South West Peninsula CRN i gyfrannu at sesiwn ar economeg iechyd meddygaeth haenedig.

Aeth nifer o staff a myfyrwyr CHEME i ddigwyddiad ymchwil ôl-raddedig yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd gyda'r myfyrwyr Bethany Anthony a Jess Harland a oruchwylir gan CHEME yn cael y wobwr gyntaf a'r ail mewn cyflwyno posteri.

Aeth Emily Holmes i ymweld â'r Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Meddygol a Gofal Iechyd i gyflwyno gwaith diweddar ar beth sydd orau gan gleifion o ran effeithiau niweidiol a buddiol meddyginiaethau, mewn cyfres o seminarau ar wyladwriaeth a rheoli risgiau meddyginiaethau. Teitl seminar Emily yw "Weighting clinical trial outcomes by patients' preferences: a case study in epilepsy".

Rhoddodd Emily Holmes gyflwyniad yng nghyfarfod gwyddonol blynyddol yr Association of British Neurologists yn Lerpwl. Roedd cyflwyniad Emily, "Patients' preferences for antiepileptic drugs" yn cynnwys tystiolaeth ar yr anghysondebau yn y drefn y rhestrir cyffuriau gwrthepileptig fel y nodir gan dreialon clinigol, a'u safle wedi eu pwysoli gan beth sydd orau gan gleifion o ran canlyniadau.

Cyhoeddiadau Diweddar

Morpeth L, Blower S, Tobin K, Taylor RS, Bywater TJ, Edwards RT, Axford N, Lehtonen M, Jones C, Berry V. The effectiveness of the Incredible Years pre-school parenting programme in the UK: a randomised controlled trial. *Child Care Practice*. 2017. doi: 10.1080/13575279.2016.1264366

Hulbert-Williams N, Plumpton C, Flowers P, McHugh R, Neal R, Semlyen J, Storey L. The cancer care experiences of gay, lesbian and bisexual patients: A secondary analysis of data from the UK Cancer Patient Experience Survey. *Eur J Cancer Care*. 2017 doi: 10.1111/ecc.12670

Davies EH, Fulton E, Brook D, Hughes DA. Affordable orphan drugs: a role for not-for-profit organizations. *Br J Clin Pharmacol*. 2017;83(7):1595-1601

Prayle AP, Cox T, Smith SJ, Rycroft-Malone J, Thomas KS, Hughes DA, Smyth AR. Do guidelines for treating chest disease in children use Cochrane Reviews effectively? A systematic review. *Thorax*. 2017. doi: 10.1136/thoraxjnl-2016-208790

Ramanan AV, Dick AD, Jones AP, McKay A, Williamson PR, Compeyrot-Lacassagne S, Hardwick B, Hickey H, Hughes D, Woo P, Benton D, Edelsten C, Beresford MW; SYCAMORE Study Group. Adalimumab plus Methotrexate for Uveitis in Juvenile Idiopathic Arthritis. *N Engl J Med*. 2017;376(17):1637-1646

Chim L, Salkeld G, Kelly P, Lipworth W, Hughes DA, Stockler MR. Societal perspective on access to publicly subsidised medicines: A cross sectional survey of 3080 adults in Australia. *PLoS One*. 2017;12(3):e0172971

Sivaprasad S, Prevost AT, Vasconcelos JC, Riddell A, Murphy C, Kelly J, Bainbridge J, Edwards RT, Hopkins D, Hykin P and CLARITY Study Group, 2017. Clinical efficacy of intravitreal aflibercept versus panretinal photocoagulation for best corrected visual acuity in patients with proliferative diabetic retinopathy at 52 weeks (CLARITY): a multicentre, single-blinded, randomised, controlled, phase 2b, non-inferiority trial. *Lancet*. 2017;389:2193-2203

Taylor J, Bambrick T, Brand A, Bray N, Dutton M, Harper R, Hoare Z, Ryan B, Edwards RT, Waterman H, Dickinson C. Effectiveness of portable electronic and optical magnifiers for near vision activities in low vision: a randomised crossover trial. *Ophthalmic Physiol Opt* 2017. doi: 10.1111/opo.12379

Johnson S, Richey R, Holmes E, Hughes D, Goebel A. A randomised, patient-assessor blinded, sham-controlled trial of external non-invasive peripheral nerve stimulation for chronic neuropathic pain following peripheral nerve injury (EN-PENS trial): study protocol for a randomised controlled trial. *Trials*. 2016;17(1):574



cheme.bangor.ac.uk

cheme@bangor.ac.uk

01248 382153

@CHEMEBangor

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau
Arddwy, Safle Normal, Prifysgol Bangor,
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ